**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(A541 Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd)**
**(Ffordd Gyfyngedig a Cyfyngiad Cyflymder 40mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd trwy hyn ei fod yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 81, 82, 83 a 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a phob pŵer galluogi arall a fydd yn cael yr effaith o:-

a) Ymestyn y Ffordd Gyfyngedig (Terfyn Cyflymder 30mya) ar yr A541 Wrexham Road mewn cyfeiriad deheuol, fel y nodir yn Atodlen 1 yr hysbysiad hwn ac fel y dangosir ym Map Atodlen M4

b) Bydd y Gorchymyn arfaethedig, os caiff ei wneud, yn dirymu Gorchymyn Cyngor y Fflint (Cyfyngiad Cyflymder 40mya) (Rhif 1) 1966 yn llwyr.

Er diogelwch yn ystod y Pandemig COVID-19, os ydych yn dymuno gweld copi o’r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y cynnig a datganiad o resymau’r cyngor dros wneud y Gorchymyn, cynghorir eich bod yn eu darllen ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk > Preswyl >Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. Fel arall, gallwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, a’r sail dros hynny, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn 20ed Awst 2021.

**ATODLEN 1**
**FFORDD GYFYNGEDIG**

**A541 Ffordd Wrecsam:** Hyd yr A541 Ffordd Wrecsam yng Nghefn – y – Bedd o bwynt o 468 metr tua'r gogledd o'r ffin rhwng siroedd Sir y Fflint a Wrecsam, wrth y bont dros Afon Alyn am 35 metr tua'r gogledd fel y dangosir ar Atodlenni Map yr M4.

**ATODLEN 2**
**TERFYN CYFLYMDER 40MYA**

**A541 Ffordd Wrecsam:** Darn o’r A541 Ffordd Wrecsam yng Nghefn-y-Bedd sy’n ymestyn o’r ffin rhwng sir y Fflint a Wrecsam, wrth y bont dros yr afon Alun i gyfeiriad y gogledd am bellter o 468 metr. cyfeiriad fel y dangosir ar Map Atodlenni M4.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2021



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

**Dyddiad** **xx^eg xxxxx** **202x**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(A541 Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd)**
**(Ffordd Gyfyngedig a Cyfyngiad Cyflymder 40mya) 202x**

**<u>GORCHYMYN</u>**

**fel y nodir oddi mewn**

**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant)**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NF**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(A541 Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd)**
**(Ffordd Gyfyngedig a Cyfyngiad Cyflymder 40mya) 202x**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i rymoedd dan Adrannau 82(1)a, 82(2)b ac 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob grym arall sy’n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Bydd y rhan o’r ffordd a nodir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn bellach yn ffordd gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o Ddeddf 1984.

3. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

4. Bydd y Gorchymyn arfaethedig, os caiff ei wneud, yn dirymu Gorchymyn Cyngor y Fflint (Cyfyngiad Cyflymder 40mya) (Rhif 1) 1966

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli’r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar XXXXXXXX 202x ac fe’i adnabyddir fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A541 Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd) (Ffordd Gyfyngedig a Cyfyngiad Cyflymder 40mya) 202-.

**ATODLEN 1**
**Ffordd Gyfyngedig**

**A541 Ffordd Wrecsam:** Hyd yr A541 Ffordd Wrecsam yng Nghefn –y–Bedd o bwynt o 468 metr tua'r gogledd o'r ffin rhwng siroedd Sir y Fflint a Wrecsam, wrth y bont dros Afon Alyn am 35 metr tua'r gogledd fel y dangosir ar Atodlenni Map yr M4.

**ATODLEN 2**
**TERFYN CYFLYMDER 40MYA**

**A541 Ffordd Wrecsam:** Darn o’r A541 Ffordd Wrecsam yng Nghefn-y-Bedd sy’n ymestyn o’r ffin rhwng sir y Fflint a Wrecsam, wrth y bont dros yr afon Alun i gyfeiriad y gogledd am bellter o 468 metr.
.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR Y FFLINT** )
ar y )
diwrnod hwn o ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Yr A541 Ffordd Wrecsam, Cefn – Y - Bedd) (Ffordd Gyfyngedig a Therfyn Cyflymder 40 mya) 202x**

Datganiad o Resymau Dros Argymell Gwneud y Gorchymyn

<u>Cyffordd yr A541 â’r B5102:</u>

Mae i gyffordd yr A541 â’r B5102 yng Nghefn y Bedd hanes o wrthdrawiadau sy’n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gerbydau’n tynnu allan i lwybr cerbydau sy’n dod ar hyd y ffordd tuag atynt, cerbydau’n mynd i mewn i du ôl cerbydau o’u blaen wrth aros i droi ar y gyffordd, symudiadau troi i’r dde yn aml yn arwain at anafiadau difrifol i’r rhai sy’n gysylltiedig neu rai a fethwyd o drwch blewyn. Yn ogystal â’r problemau uchod mewn perthynas â’r gyffordd, nid oedd darpariaeth ar gael i gerddwyr gael mynediad at amwynderau lleol.

Mae Sir y Fflint felly wedi cael arian grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella diogelwch y ffordd yn y lleoliad hwn.

Y cynnig yw gwella diogelwch ar gyffordd yr A541 / B5102, Cefn y Bedd yn sylweddol drwy osod croesfan i gerddwyr a signalau, bydd hyn yn gwella diogelwch yn y lleoliad hwn i raddau helaeth. Bydd cyflwyno cyfleusterau i gerddwyr ar y gyffordd yn lleihau’r gwrthdaro rhwng symudiadau gwahanol gerbydau. Yn sgil hyn bwriedir gostwng y cyfyngiad cyflymder o 40mya i 30mya yn y lleoliad hwn er mwyn darparu ar gyfer croesfan i gerddwyr / signalau.

Teimlir y bydd gostwng y cyfyngiad cyflymder a gosod signalau traffig yn y lleoliad yn lleihau nifer y damweiniau difrifol sy’n digwydd yno ac yn gwella diogelwch. Bydd gostwng y terfyn cyflymder hefyd yn lleihau cyflymder cerbydau wrth iddynt ddynesu at y groesfan i gerddwyr yn unol â’r weledd.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2021



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF.

OBUA
32

50

ROAD TRAFFIC ACT, 1962

THE COUNTY COUNCIL OF FLINT (40 m.p.h. SPEED LIMIT)
(NO. 1) ORDER, 1966

The County Council of Flint in exercise of their powers under section 11(1) of the Road Traffic Act, 1962, after consultation with the Chief Officer of Police for the County of Flint and with the consent of the Secretary of State for Wales, hereby order as follows:-

1. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of road specified in the Schedule to this Order

2. The Interpretation Act, 1889 shall apply for the interpretation of this Order as it applies for the interpretation of an Act of Parliament

3. This Order may be cited as the County Council of Flint (40 m.p.h. Speed Limit) (No. 1) Order, 1966.

THE COMMON SEAL of THE COUNTY COUNCIL OF FLINT was hereunto affixed this twenty-second day of June 1966 in the presence of:-

E. Williams Thomas

Chairman

[signature]

DEPUTY Clerk

THE SCHEDULE

That length of the Wrexham-St. Asaph Road (A.541) at Cefn-y-Bedd which extends from the boundary between the Counties of Flint and Denbigh, at the bridge over the River Alyn, in a northerly direction for a distance of 550 yards.




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386, Flintshire County Council, 2018.

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386, Cyngor Sir y Fflint 2018.

N

1:5000 Scale at A3
1:5000 Graddfa ar A3

THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL
(KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET, WOODLAND STREET, WOODLAND CRESECENT, PLYMOUTH STREET, UNNAMED ROAD, VICTORIA ROAD, ROWDEN STREET, BEACONSFIELD ROAD, KINGSWAY, ROWDEN CRESCENT, VICTORIA CRESCENT , GLADSTONE STREET, GARDEN WAY, QUEENSWAY, TALIESIN AVENUE, MILL VIEW ROAD, LLEWELYN STREET, SHOTTON)
(20 mph Speed Limit and 20mph Speed Limit Zone) Order 20—

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET, WOODLAND STREET, WOODLAND CRESCENT, PLYMOUTH STREET, FFORDD DDIENW, VICTORIA ROAD, ROWDEN STREET, BEACONSFIELD ROAD, KINGSWAY, ROWDEN CRESCENT, VICTORIA CRESCENT , GLADSTONE STREET, GARDEN WAY, QUEENSWAY, TALIESIN AVENUE, MILL VIEW ROAD, LLEWELYN STREET, SHOTTON)
(Terfyn Cyflymder 20 mya a Pharth 20 mya) 20—

Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NB

Cyngor Sir y Fflint,
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint, CH7 6NB

## Legend / Eglurhad

- 20 mph/mya
- 30 mph/mya
- 40 mph/mya
- 50 mph/mya
- 60 mph/mya
- 70 mph/mya
- County Boundary / Ffin Sirol

**Map tile**

**M4**

**Sheet Revision Number:**
**Rhif Adolygiad Y Ddalen:** 0

**Sheet Active from:**
**Dalen yn weithredol o:** dd/mm/yyyy




| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | NGW |
| CHECKED BY: | LS |
| SCALE: | 1: NTS @ A3 |
| NAT. GRID REF: | 331141 356065 |

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

# A541 Cefn y Bedd Proposed Speed Limit

Proposed 30mph Speed Limit

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER: HT/21/0000 | 101 | P1